Rhif: WG26362

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 5 Ebrill 2016

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diwygiodd Deddf Seilwaith 2015 Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gyflwyno darpariaethau rheoli rhywogaethau er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredu priodol yn erbyn rhywogaethau estron goresgynnol dan rai amgylchiadau.<br><br>Mae'r darpariaethau newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fel y gallant fynnu bod perchnogion yn rhoi camau rheoli ar waith i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol, neu'n caniatáu iddynt wneud y gwaith hwnnw eu hunain, lle mae perchennog wedi gwrthod gweithredu neu ganiatáu mynediad. Gall y darpariaethau fod yn gymwys hefyd i anifeiliaid cynhenid a arferai breswylio yma lle mae'r anifeiliaid wedi'u rhyddhau'n anghyfreithlon heb y caniatâd angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Mae'r cod ymarfer drafft hwn yn nodi sut y dylid rhoi'r darpariaethau hyn ar waith yng Nghymru. Mae Llywodraeth Lloegr wedi ymgynghori ar wahân ar ei chod ymarfer drafft. |
| **Sut i ymateb** | E-bost, post neu drwy lenwi ffurflen ar-lein. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Cod Ymarfer drafft i Gymru ar Ddarpariaethau Rheoli Rhywogaethau: [http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/code-of-practice-species-contol/?lang=cy](http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/code-of-practice-species-contol/?lang=cy) |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Enw (neu flwch post generig):<br>Planthealthandbiotech@Wales.gsi.gov.uk<br><br>Cyfeiriad:<br>Y Tîm Amgylchedd Naturiol ac Amaeth<br>Rhywogaethau Estron<br>Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR<br><br>E-bost: Planthealthandbiotech@Wales.gsi.gov.uk |

**Diogelu Data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cefndir

Roedd Adran 23 o Ddeddf Seilwaith 2015 yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 trwy ychwanegu Atodlen 9A newydd er mwyn cyflwyno trefn statudol o gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau er mwyn sicrhau bod tirfeddianwyr, dan amgylchiadau priodol, yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma, neu ganiatáu i eraill fynd ar dir i gyflawni'r gwaith hwn, er mwyn eu hatal rhag ymsefydlu ac ymledu. Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdodau amgylcheddol sydd â'r pwerau i wneud cytundebau neu orchmynion rheoli rhywogaethau.

## Y rheswm dros newid

Mae mwy a mwy o rywogaethau'n cael eu cludo, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol, y tu hwnt i'w tiriogaeth naturiol gan bobl. Tra bod llawer o'r rhywogaethau estron hyn yn gallu bod yn fanteisiol, er enghraifft i'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth, garddwriaeth, pysgodfeydd ac anifeiliaid anwes, mae canran fach ohonynt a elwir yn rhywogaethau estron goresgynnol yn gallu cael effaith negyddol.

Rhywogaethau estron goresgynnol yw un o'r bygythiadau mwyaf i'n hamgylchedd. Maen nhw'n costio tua £2 biliwn y flwyddyn i economi'r DU ac mae rhai hyd yn oed yn peryglu'n hiechyd ni. Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd y mater hwn o ddifrif, ac yn cydnabod ei bod hi'n well atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yma yn y lle cyntaf na cheisio'u rheoli ar ôl iddyn fwrw gwreiddiau yma – sy'n aml yn ddrud iawn neu ddim yn opsiwn hyfyw mwyach.

I wneud hyn, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru allu ymateb yn gyflym ar ôl darganfod bygythiad newydd. Mae cael mynediad i safle er mwyn rheoli rhywogaeth estron oresgynnol newydd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi niwed, yn gallu bod yn hollbwysig. Fel arfer, rydym yn sicrhau hyn yn wirfoddol gan fod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn hapus i ganiatáu mynediad i'w tir. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn bosibl bob amser, hyd yn oed os na wyddom pwy yw'r perchennog dan sylw. Bydd y pwerau newydd hyn yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael mynediad i'r tir a chael gwared ar rywogaeth estron oresgynnol cyn iddi gael y cyfle i ymsefydlu'n ehangach.

Gall achosion anghyfreithlon o ailgyflwyno rhywogaethau a arferai fod yn rhai preswyl cynhenid hefyd, dan amgylchiadau penodol, gael cryn effeithiau negyddol ar fuddiannau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd gan fod amgylchiadau wedi newid ers y tro diwethaf roedden nhw'n bresennol yng Nghymru. Hefyd, gallai ailgyflwyno o'r fath gael effaith andwyol ar les anifeiliaid unigol sy'n cael eu rhyddhau i amgylchedd nad yw'n addas i'w hanghenion. Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu er mwyn mynd i'r afael ag ailgyflwyniadau didrwydded dan yr amgylchiadau hyn. Bydd modd gwneud hyn trwy gytundeb fel arfer, ond mewn

achosion prin, bydd angen defnyddio pwerau rheoli er mwyn cael mynediad i dir pan fydd popeth arall yn methu.

## Pam ymgynghori?

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw cael eich sylwadau ar y cod ymarfer drafft sy'n nodi sut y dylid rhoi'r darpariaethau hyn ar waith yn ymarferol. Nid ydym yn ymgynghori ar y darpariaethau eu hunain gan fod Gweinidogion Cymru a Senedd y DU wedi cytuno ar y rhain eisoes a'u bod yn rhan o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw**

Angling Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
British and Irish Association of Zoos and Aquariums
British Association for Shooting and Conservation
British Marine Federation
Buglife
Canŵ Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Dinas a Sir Abertawe
Glandŵr Cymru
Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt
John Muir Trust
LAC Group
National Gamekeepers Organisation
National Wildlife Crime Unit
Ornamental Aquatic Trade Association
Plantlife
Property Care Trust
Reptile and Exotic Pet Trade Association
Rivers Trust
Royal Yachting Association
Shellfish Association of Great Britain
Sustainable Users Network
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol